

DISGRIFIAD SWYDD (ARTIST CYMREIG).

Dros gyfnod o tua deg ar hugain o flynyddoedd r'wyf wedi datblygu gyrfa fel arlunydd yng Nghymru, arlunydd sydd yn ymdrin a hanfodion y cyflwr o fod yn Gymro Cymraeg yn y cyfnod cyfoes. Ni fu hyn yn hawdd ar y dechre, ac r'wyf yn ymwybodol fod fy ymdrech i sicrhau lle i arlunwyr Cymreig yn eu gwlad eu hyn ac ar lefel rhyng-wladol, lle mae modd trafod ein achos lleiafrifol yn bwysig, wedi llwyddo. I raddau helaeth byddwn yn cysidro fy mod wedi llwyddo i ysbrydoli nifer fawr o arlunwyr yn y broses, ac mae'r sefyllfa wedi gwella yn ddifrifol ers yr wythdegau o'r ganrif ddiwethaf.

Bu i mi wneud hyn drwy ddefnyddio sawl llwybr, drwy arddangos fy ngwaith yn gyson, gwaith sydd yn delio efo amryw thema o'r 'cyflwr' o fod yn Gymro neu Gymraes yn yr oes sydd ohonni, a thrwy hynny greu ymwybyddiaeth o Gymreictod gartref ac yn rhyng-wladol. Yn aml iawn byddaf yn cyflwyno darlithoedd ar y testyn i gyd-fynd a'r arddangosfeydd, ac r'wyf wedi cael cyfleoedd o wneud hyn mewn llefydd fel Chongqing yn China, Bulawayo yn Zimbabwe, Syracuse yn yr Unol Daleithau, Galicia, Milan, Yr Academi Frenhinol ym Mryste, Kiev yn yr Ukraine, Lodz yng ngwlad Pwyl yn ogystal ac yma, yng Nghymru. R'wyf hefyd wedi cynnal symposia, a darlithio mewn cynhadleoedd niferys. I raddau, mae hefyd wedi body yn ofynol i mi greu 'persona' i berfformio'r swyddogaeth o Artist Cymreig! Mae'n anodd i Gymro (o'r gogledd beth bynnag) frolio ei hun, ond dwi'n meddwl fy mod yn ddarlithydd o ryw sylwedd oherwydd yr ymateb r'wyn dderbyn i'r darlithoedd hyn. Er ben hyn r'wyf wedi body n ffodys o fedru cyflwyno fy syniadau ar raglenni teledy yn y ddwy iaith.

Bu cyhoeddi llyfrau a thraethodau sydd yn arddel gwaith arlunwyr eraill o Gymru (Certain Welsh Artists; Custodial Aesthetics in Contemporary Welsh Art a Here + Now Contemporary Art in Wales i enwi dau) hefyd yn rhan o'r strategaeth i gael llyfrau celfyddyd o Gymru ar silffoedd y siopau llyfrau a'r llyfrgelloedd. R'oeddwn wedi fy ysgogi o weld y doraeth o lyfrau ar Gelf yn lwerddon a oedd ar gael yno i gymharu a thlodi y nifer o gyfrolau ar gelf yng Nghymru y medrem eu darllen. Mi wn fod rhain wedi ysgogi a chyfoethogi gwaith nifer o fyfyrwyr sydd yn chwilio am y 'ffordd Gymreig' o fod yn greadigol. Gyda llyfrau Cymraeg yr iaith fel 'Hon: Ynys y Galon' r'wyf wedi ceisio esponio rhywbeth o'r profiad o fod yn Gymro creadigol yn nechrau yr ugeinfed ganrif ar ddeg drwy gydweithio efo beirdd ac awduron led led Cymru. Ac wrth gwrs r'oedd testyn y llyfr yn ein cyfeirio yn ôl at chwedl Ynys Gwales yn Y Mabinogi, a pherthnasedd y stori i fywyd heddiw.

R'wyf wedi gweithio yn y maes Celf Gyhoeddus, a thrwy hynny wedi medru hyrwyddo mwy o artistiaid ifanc, a chadw gweledigaeth o berthnasedd diwyllianol yn eu gwaith. Ar ben hyn bu i mi gyflwyno a sgwennu sawl rhaglen deledy ar y testynau oedd yn agos at fy nghalon. Bellach r'wyf yn ymdrechu i wneud yr un swydd ym maes addysg, a thrwy weithredu o fewn y Brifysgol hon r'wyn teimlo y medr y gwaith hyn ffynnu a datblygu mewn ffordd fydd yn gwireddu'r freuddwyd.

Bu hyn yn sbardun i nifer o fyfyrwyr ac artistiaid ddilyn yr un trywydd o olrhain eu hunaniaith. Mae rhai ohonnynt yn fodlon cydnabod hyn. R'wyn ymwybodol, wrth gwrs, fod yna elfenau eraill cymdeithasol, gwleidyddol a diwyllianol wedi chwarae rhan yn y newid cyflwr a statws y celfyddydau gweledol yng Nghymru, a bod personoliaethau eraill yn gyfrifol am y newidiadau, Peter Lord yn un enw sylweddol yn hyn o beth. Ond mae mwy o waith i'w wneud o hyd.

Erbyn heddiw mae ymwybyddiaeth o werth Cyfalaf Diwylliannol a Chymdeithasol yn tyfu. Bu'm yn ffodys i gyfarfod yr Athro Declan McGonagle yn yr Iwerddon, gwr huawdl sydd wedi gwario gyrfa hir yn traethu gwerth y celfyddydau creadigol, ac addysg ohonnynt, fel cyfalaf bwysig yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd sydd yn bod heddiw. Cefais y pleser o weithio gyda fe sawl gwaith ar raglenni teledy ac arddangosfeydd fel Artes Mundi yng Nghaerdydd. Mae ef yn cymeradwy ymgais i greu ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd hyn yng Nghymru hefyd. Mae swyddogaeth addysg ac addysgwyr yn un mor bwysig a'r cynyrch creadigol ei hyn.

Hoffwn feddwl ein bod yng Nghymru yn gwerthfawrogi ein celfyddydwyr gweledol. Cofiw'n wrth gwrs, mae'r unig reswm i ni fod ar ei hol hi yn hyn o beth oedd rhagfarn Seisnig yn erbyn y Cymry a'u doniau. R'wyn ymwybodol hefyd o bwysicrwydd gweithio ar draws ddisgyblaethau, ac fe fyddai statws academaidd fel hyn yn hyrwyddo hynny o fewn adranau academaidd sydd, o bosib, ddim yn ymwybodol o broffil artist unigol. Dyma sydd yn fy llawnhau am y posibiladau sydd yn agor i Brifysgol Cymru ar ei newydd wedd.

Iwan Bala 2013